# Rhaglen ac Amserlen Waith Archwilio Cymru – Cyngor Gwynedd

## Diweddariad Chwarterol: 31 Mawrth 2024

## Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad | Amserlen | Statws |
|---|---|---|
| **Adroddiad yn crynhoi gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023.** | Mai 2024 | Adroddiad drafft wedi'i gyflwyno i'r Cyngor. |

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwilio Datganiadau Cyfrifon y Cyngor 2023-24** | Darparu barn ynglŷn â 'chywirdeb a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. | Gwaith cynllunio i gael ei wneud rhwng mis Mai a mis Mehefin 2024.<br><br>Archwiliad terfynol i gael ei wneud rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024. | Bydd gwaith cynllunio'n dechrau'n fuan. |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Ardystio Ffurflenni Grantiau:**<br>• **Cymhorthdal Budd-dal Tai 2022-23** | Ardystio bod dim byd wedi dod i'n sylw i ddynodi bod y ffurflen:<br>• heb ei datgan yn deg;<br>• ddim yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol. | Terfyn amser y Cyngor 30 Ebrill 2023.<br>Terfyn amser ardystio 31 Ionawr 2024 | Ardystiwyd y ffurflen ar 2 Mai 2024. |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Asesiad Sicrwydd a Risg** | Prosiect i adnabod lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle gall fod yn ofynnol gwneud gwaith archwilio pellach mewn blynyddoedd yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i allu'r Cyngor i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | | |
| | • Sefyllfa ariannol | Monitro'r sefyllfa ariannol yn barhaus | Wrthi'n mynd rhagddo |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| | • Rheoli'r rhaglen gyfalaf | Medi - Rhagfyr 2023 | Ni fydd Archwilio Cymru'n gwneud gwaith manwl yn yr holl gynghorau fel rhan o'n rhaglen waith yn 2022-23. Rydym yn bwriadu cynnal astudiaeth o lywodraeth leol a fydd yn bwrw golwg ar gynllunio cyfalaf mewn llywodraeth leol gan ddechrau yn 2024. |
| | • Defnyddio gwybodaeth am berfformiad – gyda ffocws ar adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'u deilliannau | Chwefror 2023 – Ionawr 2024 | Wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2024. |
| | • Pennu amcanion llesiant | Chwefror 2023 – Mawrth 2024 | Adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2024. |

| **Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23** | **Cwmpas** | **Amserlen** | **Statws** |
| --- | --- | --- | --- |
| **Adolygiad Thematig – Gofal Heb Ei Drefnu** | Adolygiad traws-sector yn canolbwyntio ar lif cleifion allan o’r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut y mae’r Cyngor yn gweithio gyda’i bartneriaid i fynd i’r afael â’r risgiau sy’n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i gefnogi’r broses o ryddhau o’r ysbyty, yn ogystal ag atal derbyniadau i’r ysbyty. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried pa gamau sy’n cael eu cymryd i ddarparu datrysiadau yn y tymor canolig a hwy. | Awst 2022 – Hydref 2023 | Adroddiad drafft Rhanbarth Gogledd Cymru wedi’i gyhoeddi ar gyfer cliriad ym mis Chwefror 2024. |
| **Adolygiad Thematig – Digidol** | Adolygiad o ddull strategol cynghorau o ymdrin â digidol, ac i ba raddau y mae hwn wedi cael ei ddatblygu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau cynghorau. | Ionawr – Medi. | Wedi’i gyflwyno i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Rhagfyr 2023. |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Asesiad Sicrwydd a Risg** | Prosiect i adnabod lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle gall fod yn ofynnol gwneud gwaith archwilio pellach mewn blynyddoedd yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i allu'r Cyngor i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Ebrill 2023 – Mawrth 2024 | Wrthi'n mynd rhagddo |
| **Adolygiad thematig – comisiynu a rheoli contractau** | Adolygiad yn canolbwyntio ar sut y mae trefniadau cynghorau ar gyfer comisiynu a rheoli contractau'n cymhwyso ystyriaethau i werth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Mawrth – Rhagfyr 2024 | Wrthi'n gwneud gwaith cwmpasu |
| **Adolygiad thematig – Cynaliadwyedd Ariannol** | Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol cynghorau gan gynnwys ffocws ar y camau gweithredu, y cynlluniau a'r trefniadau i bontio bylchau o ran cyllid ac ymdrin â phwysau ariannol dros y tymor canolig. | Mawrth – Gorffennaf 2024 | Gwaith maes yn yr arfaeth ar gyfer mis Ebrill a mis Mai 2024. |
| **Prosiect Lleol – Gwastraff ac Ailgylchu** | Byddwn yn adolygu trefniadau'r Cyngor i wella ei wasanaeth rheoli gwastraff a chyrraedd targedau ailgylchu statudol. | I'w gadarnhau | Cyfnod y gwaith maes i gael ei drefnu |

## Astudiaethau cenedlaethol o lywodraeth leol sydd yn yr arfaeth/ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes yn yr arfaeth yng Nghyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraethu awdurdodau dibenion arbennig – Parciau Cenedlaethol** | Adolygiad o systemau ac effeithiolrwydd llywodraethu | Tachwedd 2022 – Medi 2023 | Wrthi'n drafftio'r adroddiad – i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2024. | Nac oes |
| **Llywodraethu mewn Awdurdodau Tân ac Achub** | Adolygiad o systemau ac effeithiolrwydd llywodraethu | Medi 2023 – Awst 2024 | Gwaith maes ar y gweill. I fod i gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2024. | Nac oes |
| **Digartrefedd** | Archwilio sut y mae gwasanaethau'n cydweithio i symud yr ymateb i ddigartrefedd yn ei flaen | I'w gadarnhau | Wrthi'n gwneud gwaith cwmpasu | I'w gadarnhau |
| **Cynllunio Cyfalaf mewn Llywodraeth Leol** | Archwilio pa un a yw buddsoddi cyfalaf yn y sylfaen asedau mewn llywodraeth leol yn gallu aros gyfuwch â'r galw | I'w gadarnhau | Heb ddechrau | I'w gadarnhau |

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes yn yr arfaeth yng Nghyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfyngiadau ariannol/ gwasanaethau llywodraeth leol dewisol** | Archwilio effeithiau posibl a phrosesau penderfynu cynghorau yng nghyd-destun yr egwyddor datblygu cynaliadwy. | I'w gadarnhau | Heb ddechrau | I'w gadarnhau |

## Estyn

Mae ein harolygwyr cyswllt yn parhau i weithio gyda Thorfaen fel rhan o'n proses ddilynol ar gyfer awdurdod sy'n peri pryder sylweddol. Cyhoeddwyd adroddiad ar wasanaeth addysg llywodraeth leol Conwy ar 18 Ionawr 2024, ac fe amlygom ni arfer cryf yn y ffordd yr oedd yr awdurdod lleol yn gweithio ar draws ei feysydd gwasanaeth i roi cymorth integredig i bobl ifanc agored i niwed.

Fe wnaethom dreialu ychydig o ddulliau newydd o fewn ein trefniadau arolygu ym Mro Morgannwg yn yr wythnos a ddechreuodd ar 11 Mawrth. Fe wnaethon hefyd arolygu gwaith ieuenctid Bro Morgannwg yn yr wythnos a ddechreuodd ar 19 Chwefror 2024, ac fe wnaeth canfyddiadau'r arolygiad hwnnw oleuo'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad o'r gwasanaeth addysg llywodraeth leol. Bydd yr adroddiadau ar waith ieuenctid a'r gwasanaeth addysg llywodraeth leol yn cael eu cyhoeddi ar 30 Ebrill. Yn ystod tymor y gwanwyn, cyfrannodd arolygwyr cyswllt Estyn at y gweithdai sicrwydd a risg gydag awdurdodau lleol ledled Cymru.

Yn ystod tymor yr haf, byddwn yn treialu ein hymweliadau cyswllt estynedig mewn dau awdurdod lleol. Bydd yr ymweliadau'n golygu bod tri arolygydd cyswllt yn ymweld ag awdurdod lleol am ddau ddiwrnod, gan ganolbwyntio ar un neu ddwy agwedd benodol ar waith yr awdurdod lleol. Llythyr at Brif Weithredwyr yw'r allbwn, a gyhoeddir ar ein gwefan. Byddwn hefyd yn arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol Ceredigion a Chaerffili. Byddwn yn gwneud gwaith maes ym mhob awdurdod lleol ar Roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg [Cymru] 2018 ar waith mewn lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd ac uwchradd, ac ysgolion pob oed Blwyddyn 2. Mae'r adolygiad hwn yn dilyn yr adolygiad blwyddyn 1 o roi'r Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg ar waith mewn ysgolion, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023.

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith sydd yn yr arfaeth gan AGC yn 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiadau thematig**<br><br>**Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol (TADC)** | Gan gydweithio gydag AGIC fe gwblhaom ni wiriad sicrwydd yn Rhondda Cynon Taf a ganolbwyntiodd ar Dimau Anableddau Dysgu Cymunedol (TADC). | 2024-25 | Wrthi'n cael ei gyflawni |
| | Rydym yn cynllunio ein hail wiriad sicrwydd TADC ym Mlaenau Gwent. | Mawrth 2024 | Wrthi'n cael ei gynllunio |
| **Adolygiad Cenedlaethol o Gynllunio Gofal ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n Destun Proses Cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus** | **Diben yr adolygiad**<br>Darparu gweithgarwch craffu allanol, sicrwydd a hybu gwelliant o ran ansawdd ymarfer mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus.<br>Ystyried i ba raddau y mae ymarfer wedi symud ymlaen ers cyhoeddi'r 'Adolygiad Cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus' gan AGC a chyhoeddi adroddiad gweithgor yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn 2021 gan gynnwys canllawiau arfer gorau. | Ionawr 2024 | Wedi'i gyhoeddi |

| Gwaith sydd yn yr arfaeth gan AGC yn 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022-23** | Cyhoeddwyd adroddiad 2021-22 ar 28 Chwefror 2024 Adroddiad monitro blynyddol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid 2022-23 | Chwefror 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| **Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA)** | Byddwn yn cwblhau cyfanswm o ddau arolygiad ar y cyd amlasiantaeth pellach.<br><br>Mae'r canfyddiadau yn dilyn adolygiad Cyngor Sir Ddinbych wedi cael eu cyhoeddi – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Sir Ddinbych 2023<br><br>Mae'r canfyddiadau yn dilyn adolygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael eu cyhoeddi – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Pen-y-bont ar Ogwr 2023<br><br>Mae'r canfyddiadau yn dilyn adolygiad Cyngor Sir Powys wedi cael eu cyhoeddi – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Powys 2023 | Ebrill 2023 – Ebrill 2024 | Wrthi'n cael eu cyflawni |
| | Bydd ein canfyddiadau o'r Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant Caerdydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan. | Yn disgwyl i gael ei gyhoeddi | Yn disgwyl i gael ei gyhoeddi |

| Gwaith sydd yn yr arfaeth gan AGC yn 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad o berfformiad Awdurdodau Lleol** | Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol yn gynnar yn haf 2024. | Gorffennaf 2024 | Cynllunio |
| | Rydym yn parhau i arolygu Awdurdodau Lleol yn unol â'n Cod Ymarfer wedi'i ddiweddaru ar gyfer ein gweithgarwch arolygu awdurdodau lleol<br><br>Sut yr ydym yn arolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a CAFCASS Cymru<br><br>Fe gyhoeddom ni ein hadroddiad ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant Cyngor Sir y Fflint ym mis Chwefror 2024 – Cyhoeddi adroddiad arolygu gwasanaethau oedolion a phlant Cyngor Sir y Fflint<br><br>Fe gwblhaom ni Arolygiad Gwerthuso Perfformiad yng Nghyngor Sir Fynwy rhwng mis Chwefror a mis Mawrth. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad yn fuan. | Yn barhaus | Wrthi'n mynd rhagddo |
| **Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi – Arolygiad o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid** | Fe wnaethom roi cymorth i gyflawni Arolygiad APEF o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid yn Sir Ddinbych a Chonwy. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n fuan. | Yn disgwyl i gael ei gyhoeddi | Yn disgwyl i gael ei gyhoeddi |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ers mis Mawrth 2023

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru | Mawrth 2024 |
| O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru | Chwefror 2024 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – adroddiad dilynol ar effeithiolrwydd y bwrdd | Chwefror 2024 |
| Mae'r offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol yn defnyddio data o gyfrifon drafft 2022-23 | Ionawr 2024 |
| Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – Adfywio safleoedd tir llwyd | Ionawr 2024 |
| Cydbwyllgorau Corfforedig – sylwebaeth ar eu cynnydd | Tachwedd 2023 |
| Trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru | Tachwedd 2023 |
| Methiannau mewn rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu a cholledion wedi'u dioddef – Cyngor Cymuned Harlech | Tachwedd 2023 |
| Diffodd y galwadau diangen: Ymatebion Awdurdodau Tân ac Achub i Signalau Tân Dieisiau | Hydref 2023 |
| Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon – gwaith dilynol (llythyr at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus) | Hydref 2023 |
| Gweithlu'r GIG – adroddiad briffio ar ddata | Medi 2023 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Arallgyfeirio Incwm ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru | Medi 2023 |
| Dulliau o sicrhau sero net ledled y DU | Medi 2023 |
| Llamu Ymlaen: Gwersi o'n gwaith ar y gweithlu ac asedau (mewn llywodraeth leol) | Medi 2023 |
| Offeryn data cyllid y GIG – hyd at 31 Mawrth 2023 | Medi 2023 |
| Adroddiadau er budd y cyhoedd – Cyngor Tref Rhydaman a Chyngor Cymuned Llanferres | Medi 2023 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Gwaith Dilynol ar yr Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd | Awst 2023 |
| 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru | Awst 2023 |
| Gwneud y mwyaf o arian yr UE – y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig | Mehefin 2023 |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill gan Archwilio Cymru (gwaith sydd ar y gweill/yn yr arfaeth)[1, 2]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi dangosol |
|---|---|
| Canfyddiadau o'r peilot paru data fferylliaeth gymunedol | Ebrill 2024 |
| A465 Adran 2 – diweddariad | Mai 2024 |
| Rheolaeth ariannol a llywodraethu mewn cynghorau tref a chymuned | Mai/Mehefin 2024 |
| Adolygiad o strategaethau digidol mewn llywodraeth leol – crynodeb cenedlaethol | Mehefin 2024 |
| Defnydd llywodraeth leol o wybodaeth am berfformiad, deilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau – crynodeb cenedlaethol | Mehefin 2024 |
| Tai fforddiadwy | Haf 2024 |
| Teithio llesol | Haf 2024 |
| Offeryn data cyllid y GIG – hyd at 31 Mawrth 2024 | Haf 2024 |

[1] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ni ein hunain a chapasiti cyrff a archwilir i ymgysylltu â ni. Gallai gwaith dilynol arwain at allbynnau eraill hefyd, fel y gallai gwaith archwilio lleol arall lle'r ydym yn ystyried y byddai allbwn ar ffurf crynodeb cenedlaethol o ryw fath yn fuddiol.

[2] Rydym hefyd wedi cyhoeddi papur ar ein gwefan – Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026 –sy'n darparu manylion ychwanegol ynghylch ein gwaith cenedlaethol (gan gynnwys adolygiadau thematig lleol). Yn ogystal â gwaith newydd y byddwn yn ei wneud yn 2023-24, mae'r papur yn cynnwys manylion testunau dangosol ar gyfer gwaith a fydd yn dechrau yn 2024-25 neu 2025-26. Yn ddiweddar rydym wedi adnabod cynlluniau ar gyfer meysydd gwaith newydd i ddechrau yn ystod 2024-25 yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25.

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi dangosol |
|---|---|
| Cynllunio gweithlu'r GIG (negeseuon cenedlaethol) | Haf 2024 |
| Gwasanaethau canser | Tuag at ddiwedd haf 2024 |
| Canfyddiadau o'r peilot paru data cofrestriadau meddygon teulu | Tuag at ddiwedd haf 2024 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol – adroddiad dwyflynyddol | Hydref 2024 |
| Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth (ar draws y sector cyhoeddus ac yn Cyfoeth Naturiol Cymru) | Adolygiad ar draws y sector cyhoeddus - hydref 2024<br><br>CNC i'w gadarnhau (wrthi'n gwneud gwaith cwmpasu) |
| Buddsoddi cyfalaf a buddsoddi mewn seilwaith gan Lywodraeth Cymru | Tuag at ddiwedd hydref 2024 |
| Canfyddiadau o archwiliadau datblygu cynaliadwy (adroddiad statudol dan Ddeddf LlCD) | Yn gynnar ym mis Mai 2025 |
| Yr uwch wasanaeth cyhoeddus | Gwaith cwmpasu ar y gweill, bwriad i gyflawni'n gynnar yn yr haf |
| Heriau i'r sector diwylliannol | I'w gadarnhau (wrthi'n gwneud gwaith cwmpasu) |
| Ailbennu cydbwysedd gofal a chymorth | I'w gadarnhau (wrthi'n gwneud gwaith cwmpasu) |

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi dangosol |
| --- | --- |
| Mynd i’r afael â rhestri aros y GIG (gwaith archwilio lleol mewn byrddau iechyd) | I’w gadarnhau (gwaith lleol ym mhob Bwrdd Iechyd yn dechrau ym mis Mai 2024) |
| Mynediad at addysg ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | I’w gadarnhau (wrthi’n gwneud gwaith cwmpasu) |
| Canolfan Ganser Felindre | I’w gadarnhau (wrthi’n gwneud gwaith cwmpasu) |
| Cyllid a goruchwyliaeth ar gyfer addysg bellach ac uwch – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil | I’w gadarnhau (wrthi’n gwneud gwaith cwmpasu) |
| Cymorth i fusnesau | I’w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25) |
| Cymorth ar gyfer gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd | I’w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25) |
| Cynnydd o ran buddsoddi yn adeiladau ysgolion a cholegau trwy’r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | I’w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25) |
| Dulliau cyrff y GIG o fynd ar drywydd trawsnewid digidol (gwaith archwilio lleol) | I’w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25) |

## Digwyddiadau ac adnoddau'r Gyfnewidfa Arfer Da

| Teitl | Dolen i'r adnodd |
|---|---|
| Pwyllgorau Archwilio. 'Sut y mae da'n edrych?'. Gwaith ymchwil a datblygu i ddeall y dirwedd eang o ran pwyllgorau archwilio ar draws pob sector yng Nghymru. Allbynnau i gefnogi digwyddiadau'r Gyfnewidfa Arfer Da a gwaith archwilio posibl yn y dyfodol. | Gwaith Ymchwil a Datblygu Medi – Rhagfyr 2023<br>Digwyddiad Arfer Da Gwanwyn 2024 |
| **Pwyllgorau Archwilio: Arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol**<br>Mae trefniadau llywodraethu da yn rhan hanfodol o'r ffordd y mae sefydliadau cyhoeddus yn gweithredu yn effeithiol ac yn darparu gwasanaethau sydd yn rhoi gwerth am arian i ddinasyddion a chymunedau Cymru. Mae Pwyllgorau Archwilio yn gonglfeini sy'n cefnogi llywodraethu da. Gyda phwysau mawr ar gyllid y sector cyhoeddus ar hyn o bryd ac wrth edrych tua'r dyfodol, mae mwy o angen am arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol. Mae gan Bwyllgorau Archwilio rôl allweddol wrth gyflawni hyn. Mae'r digwyddiad yma yn gyfle i rannu profiadau, dysgu a rhwydweithio gyda chyfoedion ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. | Cofrestrwch ar gyfer y digwyddiad hwn – Pwyllgorau Archwilio: arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol – Stadiwm Dinas Caerdydd, Dydd Mercher 22 Mai 2024 10 am - 3.30 pm (tickettailor.com) |
| Y Gyfnewidfa Arfer Da – Ein crynodeb blynyddol **o ddigwyddiadau ac adnoddau** | Rhagfyr 2023 |